**P-06-1333 Dylid atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag torri coed, sy'n bygwth parhad gwiwerod coch**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Craig Shuttleworth, ar ôl casglu 3,625 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb:**
Yn 2021, trafododd y Senedd Ddeiseb rhif P06-1208 i gael deddfau newydd i ddiogelu cynefin gwiwerod coch. Roedd y ddeiseb hefyd yn tynnu sylw at y modd yr oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ardal gogledd orllewin Cymru wedi methu â monitro poblogaethau gwiwerod yng nghoedwigoedd Niwbwrch a Phentraeth ar Ynys Môn. Roedd gwaith ymchwil dilynol yn datgelu gostyngiadau diffwysol o ran gwiwerod yng nghoedwig Niwbwrch a oedd yn gysylltiedig â thorri gormod o goed.
https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=37917.

Nawr yng Ngwynedd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru unwaith eto yn torri coed heb ddata am wiwerod, gan awgrymu unwaith eto y gall 'canllawiau mewnol' annelwig wneud iawn am hyn.

**Gwybodaeth ychwanegol:**
Mae'n anhygoel y gall Cyfoeth Naturiol Cymru integreiddio cadwraeth gwiwerod coch yn llwyddiannus â gwaith rheoli coedwigoedd masnachol yng ngogledd-ddwyrain Cymru, ond yn gyfagos yn y gorllewin mae'n draed moch di-drugaredd.
Mae gwiwerod coch yng Ngwynedd wedi cael eu dinistrio gan feirws brech y wiwerod.
https://bylines.cymru/environment/squirrelpox-endangers-red-squirrels-and-livelihoods/
Llofnododd 10,000 o bobl ddeiseb i 'Ariannu ymchwil i frechlyn i amddiffyn gwiwerod coch rhag feirws brech y wiwerod, sy'n farwol'.
Nawr mae'r ychydig wiwerod coch sydd wedi goroesi yn wynebu loteri o ran Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwaredu eu cartrefi yn ddall. O ystyried gwerth twristiaeth gwiwerod coch (sef £1 miliwn i economi Cymru bob blwyddyn),

gwerth y rhywogaeth o ran llesiant, ac ymrwymiadau niferus y Llywodraeth i warchod poblogaethau gwiwerod, pam mae'n frwydr gyson â Chyfoeth Naturiol Cymru yn ardal y gogledd orllewin?
A oes unrhyw syndod bod un o bob chwe rhywogaeth mewn perygl o ddifodiant?

https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/state-of-natural-resources-interim-report-2019/challenges/?lang=cy.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Arfon
- Gogledd Cymru